**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
# GENERAL LICENSING COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**11:00yb DYDD LLUN, 16 MEDI 2013**

**(AR DERFYN Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG)**

**11:00am MONDAY, 16 SEPTEMBER 2013**

**(AT THE END OF THE CENTRAL LICENSING COMMITTEE)**

Lleoliad / Location

**SIAMBR ARFON,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR,**

**SAFLE PENRALLT,**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 6.9.13

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

**GENERAL LICENSING COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**<u>Plaid Cymru (7)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Eddie Dogan | Huw Edwards |
| Annwen Hughes | Chris Hughes |
| W. Tudor Owen | Ann Williams |
| Gethin G. Williams | |

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Eryl Jones-Williams | Christopher O'Neal |
| Angela Russell | Elfed Williams |

**<u>Llais Gwynedd (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Llywarch Bowen Jones | Peter Read |
| Gruffydd Williams | Sedd wag / vacant seat |

**<u>Aelod Ex-officio/Ex-officio Member</u>**

Is-Gadeirydd y Cyngor/Vice-Chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2013 fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

22 Gorffennaf 2013

(copi yma – papur **gwyrdd**)

**6. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **aur**)

# AGENDA

**1. WELOCME AND APOLOGIES**

To receive any apologies for absence

**2. DECLARATION OF PERSONAL CONNECTION**

To receive any declaration of personal interest.

**3. URGENT ITEMS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**4. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of this Committee, held on 24 June 2013, be signed as a true record.

(copy herewith – **white** enclosure)

**5. GENERAL LICENSING SUB-COMMITTEE MINUTES**

To submit, for information, minutes of the General Licensing Sub-committee meetings held on the following dates –

22 July 2013

(copy herewith – **green** enclosure)

**6. PROPOSED HACKNEY CARRIAGE, PRIVATE HIRE AND OPERATORS LICENCE FEES**

To submit the report of the Head of Regulatory Department

(copy herewith – **gold** paper)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 24.06.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Eddie Dogan, Huw Edwards, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Llywarch Bowen Jones, Christopher O'Neal, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Chris Hughes

Croeso

Croesawyd y Cynghorydd W. Tudor Owen yn ôl i'r pwyllgor yn dilyn ei lawdriniaeth diweddar.

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd W. Tudor Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Medi 2012, fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2012, 10 Rhagfyr 2012, 4 Mawrth a 22 Ebrill 2013

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 6. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar ffioedd trwyddedau cerbydau hacni, hurio preifat a gweithredwyr.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu bod gofyn i'r Cyngor adolygu'r ffioedd yng nghyswllt trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yn rheolaidd. Nododd bod Adrannau 53 a 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatau codi ffioedd ar lefel sy'n ddigonol i adennill costau rhesymol i –
a) Ganiatau trwydded gyrrwr ar gyfer cerbyd hacni neu hurio preifat – costau ynghlwm â phrosesu, gweinyddu a rhoddi trwyddedau.
b) Ganiatau trwydded cerbyd a gweithredwr – costau archwilio, arhosfan cerbyd hacni, rhybuddion cyhoeddus, rheoli a goruchwylio cerbydau ac unrhyw gostau eraill ynghlwm â phrosesu cais.

Mae'n ofynnol i'r ffioedd a godir fod yn rhesymol ac mai mater i'r Cyngor yw penderfynu os y gosodir y ffioedd ar lefel i alluogi adennill costau'n llawn neu'n rhannol. Yn hanesyddol, gosodwyd y ffioedd ar lefel isel yng Ngwynedd o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Mae'r costau nad ydynt yn cael eu hadennill o drwyddedau yn rhoddi pwysau ar adnoddau'r gwasanaeth, ac yn y pendraw, ar drethdalwyr y Cyngor. Mae dadansoddiad cost manwl o incwm yn erbyn gwariant ar y swyddogaeth hon wedi datgelu diffyg cyllidebol sylweddol na ellir ei gynnal ymhellach yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Byddai'n rhaid codi'r ffioedd o leiaf 37% er mwyn adennill y costau'n llawn. Argymhellodd y dylid cynyddu'r holl ffioedd tacsis 25% gyda chynnydd pellach er symud at adennill costau'n llawn yn 2014/15. Bydd y cynnydd arfaethedig, os y'i cymeradwyir, yn amodol ar ymgynghoriad statudol. Yn y dyfodol, fe fyddai costau darparu'r gwasanaeth yn cael eu hasesu'n flynyddol. Rhoddodd fanylion am y ffioedd cyfredol a'r ffioedd arfaethedig.

Mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol, nododd y swyddog y codwyd ffioedd ar gyfer trwyddedau cerbydau hacni a hurio preifat i gerbydau, gyrwyr a gweithredwyr yn unol â chwyddiant yn unig yn 2012/13. Yn 2010/11, codwyd y prif ffioedd ynghlwm â thrwyddedu tacsis rhwng 17% a 49% i adlewyrchu cynnydd mewn costau yn sgîl chwyddiant na chafodd ei godi mewn blynyddoedd blaenorol, ac yng nghyd-destun y cynnydd mewn ffioedd a weithredwyd mewn awdurdodau lleol eraill.
Rhoddodd fanylion am ffioedd tacsis Gwynedd rhwng 2007 a 2013 yn ogystal â ffioedd tacsis rhai awdurdodau lleol eraill Cymru yn 2013/14. Nododd, hyd yn oed gyda'r cynnydd arfaethedig o 25%, mae ffioedd trwyddedau tacsis Gwynedd yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi adrodd i'w pwyllgorau tros y flwyddyn ddiwethaf bod pwysau ariannol wedi ei gwneud yn amhosibl i gynnal ffioedd cymorthdaledig.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y bwriad i godi'r ffioedd er mwyn symud at adennill costau gyda'r Aelod Cabinet ac ymgynghorwyd hefyd ar y ffioedd arfaethedig â'r Pennaeth Cyllid. Yn dilyn penderfyniad y pwyllgor hwn ar y

ffioedd arfaethedig, cynhelir ymgynghoriad llawn yn unol â'r gofynion statudol. Datgan Adran 70, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ei bod yn ofynnol i rybudd cyhoeddus parthed newidiadau arfaethedig i ffioedd, ymddangos yn y wasg leol. Bwriedir rhoddi'r rhybudd yn y wasg leol ar 17 Gorffennaf 2013, neu cyn hynny, a chynhelir ymgynghoriad uniongyrchol â'r diwydiant tacsis cyn y dyddiad hwn a fyddai'n rhoddi digon o gyfle i roddi sylw i unrhyw bryderon. Bydd yn ofynnol i'r rhybudd gynnwys dyddiad pan fyddai'r ffioedd yn dod yn weithredol, 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd, yn amodol na cheir gwrthwynebiadau i'r ffioedd. Bydd unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir i'r ffioedd yn cael ystyriaeth gan y pwyllgor hwn ar 16 Medi 2013 a rhaid gwneud penderfyniad ar lefel y ffioedd yn unol â hynny. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol hyd nes y ceir penderfyniad terfynol gan y pwyllgor hwn.

Mewn perthynas â'r risgiau, fe geir risgiau posibl ynghlwm â chodi ffioedd tacsis. Fodd bynnag, mae risgiau hefyd ynghlwm â chynnal y ffioedd ar lefel isel heb symud at adennill costau. Yn y cyd-destun economaidd cyfredol, cydnabyddir y byddai unrhyw gynnydd mewn ffioedd, fel baich ychwanegol ar y diwydiant tacsis. Mae'r cynnydd yn gyfystyr â chost ychwanegol o £20.50 ar gyfer trwydded gyrrwr a £23 ar gyfer trwydded cerbyd. Mae hyn yn gynnydd llai na phunt yr wythnos ar gyfer gyrrwr/perchennog gyda un cerbyd. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol, mae'n amlwg nad yw cynnal y sefyllfa gyfredol o ariannu'r broses drwyddedu yn gynaliadwy.

Gofynnodd aelod pam bod y mater hwn yn cael ei drafod nawr ac nid yn gynt yn wyneb y diffyg cyllidebol sylweddol oedd yn bodoli.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Adran Rheoleiddio bod y diffyg ar hyn o bryd yn £30,000. Ystyriwyd mater y ffioedd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ond eleni rhoddwyd ystyriaeth trwyadl iddo mewn ymgynghoriad â'r Adran Gyllid. Nododd bod cyfanswm cost y broses yn £110,000 ac ar hyn o bryd nid yw'r incwm ond yn £80,000 ac felly mae'r diffyg yn £30,000.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at adolygiad a wnaed ar draws Cymru o ffioedd a phrisiau am wasanaethau'r 22 awdurdod lleol. Fe ddaeth yn amlwg o'r adolygiad bod y Cyngor yn codi prisiau teg ac yn gystadleuol am fwyafrif llethol o'r gwasanaethau, ond bod ambell eithriad prin lle mae "sybsidi" gan y trethdalwr i'r gwasanaeth perthnasol, ac 'roedd ffioedd tacsis yn un o'r rhai hynny. Oherwydd y sefyllfa ariannol anodd a wynebai'r Cyngor ar hyn o bryd, ni ellir fforddio bod mewn sefyllfa lle fyddai'r trethdalwr yn gorfod sybsideiddio unrhyw sector heblaw bod yna reswm digonol tros hynny. Nododd y cydweithiwyd â'r Uned Drwyddedu pryd y cytunwyd ar gost lawn y gwasanaeth hwn er ceisio unioni'r sefyllfa.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ymgynghori â'r diwydiant/cyhoedd, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu bod dyletswydd ar y Cyngor i ymgynghori'n statudol yn unol â'r ddeddf. Yn dilyn penderfyniad y pwyllgor heddiw fe ymgynghorir yn llawn â'r cyhoedd, sef defnyddwyr y gwasanaeth, yn ogystal a'r diwydiant. Nododd bod y cyfnod ymgynghori

statudol yn rhoddi cyfle i'r diwydiant neu'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau ar y ffioedd, ac fe gyflwynir y sylwadau hynny i sylw'r pwyllgor nesaf ar 16 Medi 2013 ac ni fyddai'r ffioedd yn dod i rym tan ar ôl y pwyllgor hwnnw. Bwriedir ymgynghori'n answyddogol gyda'r diwydiant tacsi cyn 17 Gorffennaf 2013, ac yn dilyn hynny fe ddechreuir ar yr ymgynghoriad statudol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo codi'r holl ffioedd tacsis 25% gan symud at adennill costau'n llawn yn 2014/15, yn amodol ar ymgynghoriad statudol ac asesu costau darparu'r gwasanaeth yn flynyddol.**

Nododd y Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith bod yr adroddiad ar Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig 2013/14 – Adran Gwarchod y Cyhoedd a ystyrir gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog yn dilyn y cyfarfod hwn, gyda rhai materion sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn yn ogystal ac felly 'roedd o'r farn y dylai'r ddau bwyllgor ei ystyried.

**7. FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG 2013/14 – ADRAN GWARCHOD Y CYHOEDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig 2013/14 – Adran Gwarchod y Cyhoedd.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu bod llawer o'r ffioedd yn aros yn sefydlog. Maent yn statudol ac felly nid oes unrhyw reolaeth leol tros eu codi ac maent yn cynnwys ffioedd sy'n berthnasol i Ddeddf Gamblo 2005 a Deddf Trwyddedu 2003. Bydd rhai o'r ffioedd arfaethedig yn cynyddu ychydig yn unol â chwyddiant. Nododd mai'r unig ffioedd lle ceir newidiadau arwyddocaol yw –
a) Ffioedd ar gyfer cofrestru person ac eiddo ar gyfer tatwio, tyllu'r corff, electrolysis ac aciwbigo.
b) Ffioedd ar gyfer sefydliadau rhyw
c) Ffioedd ar gyfer marchnadoedd a ffeiriau

Mewn perthynas a tatwio, tyllu'r corff, electrolysis ac aciwbigo, rheolir y gweithgareddau hyn yn unol â darpariaethau Rhan V111, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, adrannau 14 a 15. Mae'r ddeddf yn caniatau i awdurdodau godi "ffioedd yr ystyrir ganddynt yn rhesymol" er mwyn cofrestru personau ac eiddo busnes at ddibenion y gweithgareddau hyn. Prif amcan y cofrestriad yw gwarchod iechyd y cyhoedd ac osgoi trosglwyddo afiechydon heintus. Ni ddylai'r ffioedd a osodir ar gyfer y dibenion hyn fod yn afresymol. Yn y gorffennol, codwyd yr un ffi ar gyfer cofrestru eiddo a phersonau. Gwnaed y penderfyniad gan y swyddogion yn seiliedig ar brofiad blaenorol bod codi ffi fesul person yn afresymol a'i fod yn rhwystro pobl newydd sy'n gweithredu o eiddo busnes rhag cofrestru. Argymhellodd y dylid cynyddu'r ffi ar gyfer tystysgrif cofrestru eiddo o £76 i £100 a gostwng y ffi ar gyfer cofrestru person o £76 i £35.

Nododd y trwyddedir sefydliadau rhyw (siopau rhyw) gan Ran 11, Atodlen 3 ac adran 6, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, Yn y gorffennol, bu i lawer o Awdurdodau Lleol bennu ffioedd cymharol uchel ar gyfer gweinyddu'r cais, adnewyddu neu drosglwyddo'r trwyddedau hyn. Yn

ystod 2012/13 'roedd y ffioedd ar gyfer sefydliadau rhyw yng Ngwynedd fel a ganlyn –

- Cais Newydd - £2,972
- Adnewyddu - £1,486
- Trosglwyddo - £1,486

Dengys asesiad o'r costau'n ymwneud â phrosesu'r trwyddedau hyn, bod y ffioedd a godir yn uwch na'r costau i'r gwasanaeth. Datgan Adran 19, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 y gallai Awdurdodau Lleol bennu ffi sy'n rhesymol. O ganlyniad i ddyfarniad diweddar mewn achos amlwg yn erbyn Cyngor Westminster gan berchenogion saith siop rhyw, ni allai Awdurdodau Lleol barhau i godi ffioedd sy'n uwch na gwir gostau prosesu'r trwyddedau ar gyfer sefydliadau o'r fath. Argymhellodd y dylid gostwng y ffioedd am 2013/14 ar gyfer cyflwyno cais, adnewyddu a throsglwyddo trwydded yn unol â'r union gostau a wynebir gan y Cyngor fel a ganlyn –

- Cais Newydd - £268.07
- Adnewyddu - £268.07
- Trosglwyddo - £268.07

Parthed marchnadoedd a ffeiriau, nododd y swyddog iddynt yn hanesyddol gael eu lleoli mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd, ac mae'n bwysig eu cynnal ac nad yw ffioedd a thaliadau uchel yn eu llesteirio. Fodd bynnag, mae'r costau a wynebir gan y Cyngor mewn perthynas â dyletswyddau casglu arian parod yn ddiogel, trefniadau gwaredu ysbwriel a goruchwylio'r marchnadoedd yn cynyddu. O ganlyniad, argymhellodd y dylid cyflwyno cynnydd o 10% yn y ffioedd ar gyfer stondinau trwyddedig ac achlysurol ynghyd â stondinau ffeiriau. Nododd y cyflwynwyd gostyngiad yn y ffi ar gyfer taliadau a wneir yn flynyddol yn electronig neu drwy daliad banc uniongyrchol, gan fod y costau i'r Cyngor ar gyfer prosesu taliadau o'r fath yn sylweddol is.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed taliad banc uniongyrchol yn ymwneud â ffioedd marchnadoedd a ffeiriau, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu y ceisir perswadio'r masnachwyr i dalu yn y dull hwn. Felly hyd nes y byddant yn dechrau talu yn y modd yma ni fydd manylion am yr arbedion yn hysbys, ond mae costau sylweddol ynghlwm â chasglu arian o ran darpariaethau diogelwch, costau bancio'r arian a.y.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau am 2013/14.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00a.m. a daeth i ben am 10.45am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 22.07.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Chris Hughes, Llywarch Bowen Jones

**Hefyd yn Bresennol:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 3. CAIS MR A. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A. am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor.

Wrth ystyried y cais, dilynwyd y drefn ganlynol –

1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
5. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd.
6. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Nododd yr ymgeisydd iddo fod adref ers misoedd yn dilyn damwain a'i fod yn edrych ar ôl ei blant. 'Roedd wedi bod yn gweithio i wahanol gwmniau tacsis rhwng 1990 a 1992. Cydnabu iddo gael cyfnod rhwng 1974 a 1983 pan gafodd ei gyhuddo o ladrata ar sawl achlysur ond nid oedd wedi lladrata ers hynny.'Roedd ei drosedd olaf yn Mai 2001 ac nid oedd wedi troseddu ers hynny. 'Roedd yn awyddus i gael trwydded tacsi er mwyn cael ychwaneg o arian i gynorthwyo ei deulu.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau sy'n darparu –

- *"Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.*
- *Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.*
- *Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglyn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig."*

'Roedd y drosedd olaf a ddatgelwyd wedi digwydd mwy na thair blynedd yn ôl, ac felly'n ôl y canllawiau, 'roedd y cais yn un y gellid ei ystyried. Cymerwyd i ystyriaeth bod tros deuddeng mlynedd wedi mynd heibio ers y drosedd ac nad oedd tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi bod mewn unrhyw drwbl ers hynny. Teimlai'r Is-bwyllgor i'r ymgeisydd gydnabod difrifoldeb y troseddau ac wedi derbyn cyfrifoldeb amdanynt ac wedi dangos edifeirwch. O ganlyniad, ar ôl ystyriaeth fanwl o'r dystiolaeth, ac am y rhesymau uchod, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson addas i gael trwydded yrru, a chaniatawyd y cais. Fodd bynnag, cytunwyd i dynnu sylw'r ymgeisydd at safon ymddygiad uchel a ddisgwylir ganddo fel gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat ac iddo dderbyn hyn fel rhybudd llym ynglyn â'i ymddygiad i'r dyfodol.

Nododd y Rheolwr Trwyddedu ymhellach i'r ymgeisydd dynnu ei sylw bod perchennog y cwmni tacsi sy'n ei gyflogi yn bwriadu ymgymryd â chontractau i ysgolion. Gofynnodd os oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon i'r ymgeisydd ymgymryd â'r math hwn o waith neu ymgymryd â chontractau eraill am gyfnod o amser cyn dechrau ar y contractau ysgolion. 'Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd unrhyw sail i wrthwynebu hyn ond efallai bod gan yr Adran Addysg ganllawiau ei hunain ynglyn â hynny.

**PENDERFYNWYD caniatau cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**4. CAIS MR B. AM DRWYDDED GYRRWR HACNI/HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu yr adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B. am drwydded gyrrwr hacni / hurio preifat. Eglurodd fod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at droseddau perthnasol, ac mewn achosion o'r fath, nid oes hawl gan swyddogion i ystyried y cais ac felly cyflwynwyd yr achos hwn i ystyriaeth yr is-bwyllgor.

Nid oedd yr ymgeisydd wedi presennoli ei hun yn yr Is-bwyllgor, ond cytunodd yr aelodau y dylid ystyried y cais yn ei absenoldeb.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor adroddiad gan y Biwro Cofnodion Troseddol a ddatgelodd collfarn dyddiedig 4 Medi 2012 am ladrad gan gyflogwr. Ystyriwyd polisi'r Cyngor ar gollfarnau, sy'n datgan nad oes angen i berson gyda chollfarn(au) yn ei erbyn, gael ei wahardd yn barhaol rhag derbyn trwydded, ond disgwylir iddo fod yn rhydd o gollfarn am 3-5 mlynedd yn ôl yr amgylchiadau cyn yr ystyrir rhoddi trwydded iddo.

'Roedd yr Is-bwyllgor yn cytuno bod y drosedd yn un ddifrifol ac o'r farn bod medru ymddiried mewn gyrrwr, oherwydd natur ei waith, yn holl bwysig. Penderfynwyd felly gwrthod y cais.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Mr B. am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu i anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.50am.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **16 MEDI 2013** |
| **TEITL:** | **FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

1. Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar y 24 o Fehefin 2013 gydag argymhelliad i gymeradwyo cynnig Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi holl ffioedd trwyddedu tacsis o 25%, gan symud tuag at adennill y costau sydd ynghlwm â'r gwasanaeth yn llawn yn 2014/15. (Gweler adroddiad Pwyllgor yr 24 o Fehefin yn llawn yn atodiad 1, ynghyd a thabl o'r ffioedd arfaethedig)

2. Mae gofyn i'r Cyngor adolygu ei ffioedd yng nghyswllt trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yn rheolaidd.

3. Mae Adrannau 53 a 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu codi ffioedd ar lefel sy'n ddigonol i adennill costau rhesymol sydd ynghlwm â phrosesu ceisiadau am drwyddedau gyrwyr, a cherbydau hacni a hurio preifat, a thrwyddedau gweithredwyr .

4. Rhaid i'r ffioedd a godir fod yn rhesymol a phenderfyniad y Cyngor yw p'un a yw'r ffioedd yn cael eu gosod ar lefel i alluogi adennill costau'n llawn neu'n rhannol. Yn hanesyddol, mae ffioedd wedi'u gosod ar lefel isel yng Ngwynedd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

5. Mae'r costau nad ydynt yn cael eu hadennill o drwyddedau yn rhoi pwysau ar adnoddau'r Gwasanaeth, ac yn y pendraw, ar drethdalwyr y Cyngor. Mae dadansoddiad cost manwl o incwm yn erbyn gwariant ar y swyddogaeth hon wedi datgelu diffyg cyllidebol sylweddol ac ni ellir cynnal y diffyg hwn ymhellach yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Byddai'n rhaid codi'r ffioedd gan o leiaf 37% er mwyn adennill y costau'n llawn.

6. Mae cynnal cydbwysedd o wariant yn erbyn incwm yn her a wynebir gan bob math o fusnesau, gan gynnwys y Cyngor. Mae'r Cyngor ers blynyddoedd wedi bod yn rhoi cymhorthdal yn erbyn gwir gost trwyddedu tacsis allan o ffrydiau refeniw cyffredinol . Gyda'r toriadau a wynebir gan y Cyngor ar hyn o bryd, ni all y sefyllfa barhau heb fod adnoddau sydd ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau eraill i drigolion yn cael ei leihau. Nid yw sybsideiddio costau trwyddedu yn sicrhau unrhyw fudd mewn ffurf gostyngiad prisiau i breswylwyr Gwynedd, gan nad oes rhaid i'r diwydiant gyflwyno unrhyw arbedion i'w cwsmeriaid.

7. Rhaid i argymhelliad i gynyddu'r ffioedd fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant yn ogystal ag ymgynghoriad statudol cyhoeddus.

**BARN PENNAETH YR ADRAN CYLLID**

8. Mae Pennaeth yr Adran Cyllid yn cefnogi cynyddu'r ffioedd er mwyn adennill costau, oherwydd nad yw bellach yn bosib cynnal y diffyg cyllidebol blynyddol sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth.

**PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR 24/6/13**

9. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn argymhelliad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi holl ffioedd trwyddedu tacsis 25% y flwyddyn hon, gan symud tuag at adennill costau yn llawn yn 2014/15 yn amodol ar ymgynghoriad statudol ac asesu costau darparu'r gwasanaeth yn flynyddol.

**YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

10. Mae Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn datgan bod yn ofynnol i rybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd ymddangos yn y wasg leol.

11. Rhoddwyd y rhybudd yn y wasg leol ar Orffennaf 17, yn unol â'r gofynion statudol yn ogystal ag ar wefan y Cyngor. Roedd yr ymgynghoriad yn agored am 28 diwrnod.

12. Yn ogystal â'r ymgynghoriad statudol , fe ysgrifennwyd at bob perchennog cerbyd tacsi yng Ngwynedd yn egluro yn llawn y rheswm dros yr angen i gynyddu'r ffioedd. Fe atgoffwyd y diwydiant yn y llythyr hwn fod cyfle i roi sylwadau ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghorol.

13. Fe ddaeth yr ymgynghoriad i ben ar y 15 o Awst, ac fe dderbyniwyd 6 llythyr oddi wrth unigolion yn y diwydiant tacsis yn gwrthwynebu'r cynnydd yng nghostau trwyddedau tacsis. Roedd un o'r llythyrau wedi ei yrru ar ran y Dwyfor Taxi Association; ac yn cynnwys 18 llofnod gan wahanol unigolion.(gweler y llythyrau a dderbyniwyd yn atodiad 2 i'r adroddiad hwn.)

14. Ni fydd unrhyw gynnydd yn y ffioedd yn dod i rym hyd nes y bydd y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn ac y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynglŷn â lefel y ffioedd.

**SAIL GWRTHWYNEBIADAU A DDERBYNIWYD**

15. Gwrthwynebir y cynnydd yn y ffioedd yng nghyd-destun cynnydd sylweddol sydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf yng nghostau tanwydd a chostau yswiriant.

16. Datganir pryder fod y costau ychwanegol yn mynd i fod yn fygythiad i fywoliaeth rhai gweithredwyr , perchnogion a gyrwyr, gan fod y costau cynyddol yn effeithio ar allu cwmnïau i gynnal y lefel presennol o wasanaeth.

17. Mae rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylid gweithredu llai o gynnydd ar gyfer rhai sydd gyda thrwyddedau hurio preifat sydd yn gyfyngedig i waith cytundebau ysgolion yn unig.

18. Datganir pryderon y bydd y cwsmer yn gwrthod y cynnydd anorfod fydd mewn cost hurio tacsi yn dilyn y cynnydd mewn ffioedd trwydded.

19. Yn ychwanegol, mae'r Dwyfor Taxi Association yn cyfleu eu hanfodlonrwydd o safbwynt y lefel gwasanaeth sydd ar gael o swyddfa Pwllheli, gan fod swyddog yn bresennol yn y swyddfa ar ddydd Mercher yn unig. Maent hefyd o'r farn nad oes digon o wiriadau ac archwiliadau o gerbydau a bathodynnau gyrwyr yn ystod y dydd a gyda'r nos, a diffyg gweithredu ar gwynion. Dylid nodi y byddai gweithredu ar yr awgrymiadau yma yn debygol o arwain at gynnydd pellach mewn cost trwyddedau, os yw'r Cyngor am adennill costau darparau'r gwasanaeth yn llawn.

**19.** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd; yn ogystal â'r dystiolaeth a gyflwynwyd eisoes i'r Pwyllgor parthed yr angen i adennill costau'r gwasanaeth.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

**20. Codi holl ffioedd trwyddedu tacsis 25%, yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y Pwyllgor hwn ac a ymgynghorwyd arno er mwyn symud tuag at adennill y costau sydd ynghlwm â'r gwasanaeth yn llawn yn 2014/15.**

Atodiad 1

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **24 MEHEFIN 2013** |
| **TEITL:** | **FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

1. Mae gofyn i'r Cyngor adolygu ei ffioedd yng nghyswllt trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yn rheolaidd.

2. Mae Adrannau 53 a 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu codi ffioedd ar lefel sy'n ddigonol i adennill costau rhesymol -

    - I ganiatáu trwydded gyrrwr ar gyfer cerbyd hacni neu hurio preifat – costau ynghlwm â phrosesu, gweinyddu a rhoddi trwyddedau.
    - I ganiatáu trwydded cerbyd a gweithredwr – costau archwilio, arhosfan cerbyd hacni, rhybuddion cyhoeddus, rheoli a goruchwylio cerbydau ac unrhyw gostau eraill ynghlwm â phrosesu cais.

3. Rhaid i'r ffioedd a godir fod yn rhesymol a phenderfyniad y Cyngor yw p'un a yw'r ffioedd yn cael eu gosod ar lefel i alluogi adennill costau'n llawn neu'n rhannol, ai peidio. Yn hanesyddol, mae ffioedd wedi'u gosod ar lefel isel yng Ngwynedd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

4. Mae'r costau nad ydynt yn cael eu hadennill o drwyddedau yn rhoi pwysau ar adnoddau'r Gwasanaeth, ac yn y pendraw, ar drethdalwyr y Cyngor. Mae dadansoddiad cost manwl o incwm yn erbyn gwariant ar y swyddogaeth hon wedi datgelu diffyg cyllidebol sylweddol na ellir ei gynnal ymhellach yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Byddai'n rhaid codi'r ffioedd gan o leiaf 37% er mwyn adennill y costau'n llawn.

## CYNNIG

5. **Cynigir cynnydd i holl ffioedd tacsis o 25% gyda cynnydd pellach er pwrpas symud tuag at adennill costau'n llawn yn 2014/15. Bydd y cynnydd arfaethedig, os caiff ei gymeradwyo, yn amodol ar ymgynghoriad statudol. Yn y dyfodol, fe fydd costau darparu'r gwasanaeth yn cael eu hasesu'n flynyddol.**

6. Amgaeir rhestr lawn y ffioedd cyfredol a'r ffioedd arfaethedig gyda'r adroddiad hwn.

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

7. Codwyd ffioedd ar gyfer rhoddi trwyddedau cerbydau hacni a hurio preifat (HP) i gerbydau, gyrwyr a gweithredwyr yn unol â chwyddiant yn unig yn 2012/13. Yn 2010/11, codwyd y prif ffioedd ynghlwm â thrwyddedu tacsis gan rhwng 17% a 49% i adlewyrchu cynnydd mewn costau yn sgil chwyddiant na chafodd ei godi mewn blynyddoedd blaenorol ac, yng nghyd-destun y cynnydd mewn ffioedd a weithredwyd mewn awdurdodau lleol eraill.

**Ffioedd Tacsis Gwynedd – 2007-2013**

| Math o drwydded | 2007/2008 | 2011/2012 | 2012/2013 | Arfaethedig 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| Cerbyd Hacni neu HP | 77 | 90 | 92 | 115 |
| Gweithredwyr HP | 72 | 107 | 109 | 136.25 |
| Gyrrwr Hacni neu HP | 57 | 80 | 82 | 102.50 |

**Ffioedd Tacsis – Awdurdodau Lleol eraill 2013/14**

| Math o drwydded | CERBYD HACNI NEU HP | GWEITHREDWYR HP | GYRRWR HACNI NEU HP |
|---|---|---|---|
| **GWYNEDD (arfaethedig)** | **115** | **136.25** | **102.50** |
| POWYS (ffioedd 12/13) | 129.50 | 172.40 | 140.70 |
| BRO MORGANNWG | 230 | 225 | 80 |
| CASNEWYDD | 220 | 300* | 300* |
| BLAENAU GWENT | 154 | 82 | 41* |
| TORFAEN | 185 | 278* | 113* |
| SIR GAERFYRDDIN | 141.45* | 133.25 | 33 |
| YNYS MÔN | 126 | 117.50 | 102* |
| CONWY | 220* | 130* | 145* |

* nid oes modd cymharu'r data – mae rhai ffioedd yn cynnwys gwiriadau DBS; costau MOT a phrofi; ffioedd gweithredwyr yn cynyddu y mwyaf o gerbydau sydd yn y fflyd; amrywio ar gyfer ceisiadau newydd neu adnewyddu ac ati.

## CYMHARU Â FFIOEDD A GODIR GAN AWDURDODAU LLEOL ERAILL

8. Fe welir o'r tabl, hyd yn oed gyda'r cynnydd arfaethedig o 25%, mae ffioedd trwyddedau tacsis Gwynedd yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru.
   Mae nifer o Awdurdodau Lleol wedi adrodd i'w Pwyllgorau dros y flwyddyn ddiwethaf bod pwysau ariannol wedi'i gwneud hi'n amhosib cynnal ffioedd cymorthdaledig.

## YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT

9. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y bwriad i godi'r ffioedd er mwyn symud tuag at adennill costau gyda'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd John Wyn Williams. Cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol ar y ffioedd arfaethedig hefyd gyda Phennaeth yr Adran Gyllid. Unwaith y bydd y Pwyllgor hwn yn gwneud penderfyniad ar y ffioedd arfaethedig bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cychwyn yn unol â'r gofynion statudol.

10. Mae Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn datgan bod yn ofynnol i rybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd ymddangos yn y wasg leol.

Rhoddir y rhybudd yn y wasg leol ar 17 Gorffennaf 2013, neu cyn hynny, a chynhelir ymgynghoriad uniongyrchol â'r diwydiant tacsis cyn y dyddiad hwn a fydd yn rhoi digon o gyfle i roi sylw i unrhyw bryderon.
Rhaid i'r rhybudd hwn gynnwys dyddiad pan fydd y ffioedd yn dod yn weithredol, 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ar yr amod na cheir gwrthwynebiadau i'r ffioedd. Bydd rhaid i unrhyw wrthwynebiadau i'r ffioedd gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn yn ystod ei gyfarfod nesaf ar 16 Medi 2013 a rhaid gwneud penderfyniad ar lefel y ffioedd yn unol â hynny. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol hyd oni ceir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor hwn.

## YSTYRIED Y RISGIAU

11. Ceir risgiau posib ynghlwm â chodi ffioedd tacsis; fodd bynnag, mae risgiau hefyd ynghlwm â chynnal y ffioedd ar lefel isel heb symud tuag at adennill costau.

12. Yn y cyd-destun economaidd cyfredol, cydnabyddir y bydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn cael ei weld fel baich ychwanegol ar y diwydiant tacsis. Mae'r cynnydd yn gyfystyr a chost ychwanegol o £20.50 ar gyfer trwydded gyrrwr; a £23 ar gyfer trwydded cerbyd. Mae hyn yn gynnydd llai na phunt yr wythnos ar gyfer gyrrwr/perchennog gydag un cerbyd.

13. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr oll o'r ffactorau perthnasol, mae'n amlwg nad ydyw cynnal y sefyllfa gyfredol o ariannu'r broses drwyddedu yn gynaliadwy.

## ARGYMHELLIAD

14. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo cynnig Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi holl ffioedd tacsis gan 25% gan symud tuag at adennill costau'n llawn yn 2014/15.

15. Bydd y cynnydd arfaethedig, os caiff ei gymeradwyo, yn amodol ar ymgynghoriad statudol a bydd costau darparu'r gwasanaeth yn cael eu hasesu'n flynyddol.

| FFIOEDD ARFAETHEDIG – TRWYDDEDAU TACSIS | | FFIOEDD 2012/13 | | | FFIOEDD ARFAETHEDIG 2013/14 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffi/Pris Eithrio TAW / Fee/Charge excluding VAT | TAW / VAT @ 20% | Ffi/Pris yn cynnwys TAW lle'n berthnasol / Fee/Charge including VAT where applicable | Ffi/Pris Eithrio TAW / Fee/Charge excluding VAT | TAW / VAT @ 20% | Ffi/Pris yn cynnwys TAW lle'n berthnasol / Fee/Charge including VAT where applicable | Cynnydd/ Increase |
| **Hacni a Hurio Preifat** | **Hackney and Private Hire** | | | | | | | |
| Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat | Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence | £82.00 | £0.00 | £82.00 | £102.50 | £0.00 | £102.50 | 25.0% |
| Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat | Private Hire Operators Licence | £109.00 | £0.00 | £109.00 | £136.25 | £0.00 | £136.25 | 25.0% |
| Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion | Private Hire Operators Licence - School Transport | £54.00 | £0.00 | £54.00 | £67.50 | £0.00 | £67.50 | 25.0% |
| Trwydded Hacni Ceffyl a Char | Horse Drawn Hackney Carriage Licence | £92.00 | £0.00 | £92.00 | £115.00 | £0.00 | £115.00 | 25.0% |
| **Categori** | **Category** | £92.00 | £0.00 | £92.00 | £115.00 | £0.00 | £115.00 | 25.0% |
| Trwydded Cerbyd Hurio Preifat | Private Hire Vehicle Licence | £92.00 | £0.00 | £92.00 | £115.00 | £0.00 | £115.00 | 25.0% |
| Trwydded Cerbyd Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion | Private Hire Vehicle Licence - School Transport | £54.00 | £0.00 | £54.00 | £67.50 | £0.00 | £67.50 | 25.0% |
| Adnewyddu Bathodyn Adnabod Gyrrwr | Replacement Drivers ID Badge | £9.00 | £0.00 | £9.00 | £11.25 | £0.00 | £11.25 | 25.0% |
| Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Plate (Pair) | £21.00 | £0.00 | £21.00 | £26.25 | £0.00 | £26.25 | 25.0% |
| Braced Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Place Bracket (Pair) | £21.00 | £0.00 | £21.00 | £26.25 | £0.00 | £26.25 | 25.0% |
| Trosglwyddo Trwydded i gerbyd arall - Cerbyd Hacni neu Cerbyd Hurio Preifat | Transfer of Licence to replacement vehicle - Hackney Carriage or Private Hire Vehicle | £45.00 | £0.00 | £45.00 | £56.25 | £0.00 | £56.25 | 25.0% |
| Trosglwyddo Trwydded i Perchennog newydd - Cerbyd Hacni neu Cerbyd Hurio Preifat | Transfer of Licence to new Proprietor - Hackney Carriage or Private Hire Vehicle | £45.00 | £0.00 | £45.00 | £56.25 | £0.00 | £56.25 | 25.0% |
| Plat Cerbyd (Yr un) | Vehicle Plate (Each) | £11.00 | £0.00 | £11.00 | £13.75 | £0.00 | £13.75 | 25.0% |
| Plat Mewnol | Internal Plate | £10.00 | £0.00 | £10.00 | £12.50 | £0.00 | £12.50 | 25.0% |
| Llawes Plat Mewnol | Internal Plate Sleeve | £3.00 | £0.00 | £3.00 | £3.75 | £0.00 | £3.75 | 25.0% |
| Sticer Drws Cerbyd Hurio Preifat (Yr un) | Private Hire Door Sticker (Each) | £11.00 | £0.00 | £11.00 | £13.75 | £0.00 | £13.75 | 25.0% |
| Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Disclosure and Barring Service Check | | | | | | | |
| Ffi Statudol | Statutory Fee | £44.00 | £0.00 | £44.00 | £44.00 | £0.00 | £44.00 | 0.0% |
| Ffi Weinyddol | Admin Fee | £6.00 | £1.20 | £7.20 | £6.00 | £0.00 | £6.00 | 0.0% |

## CYNGOR GWYNEDD

### DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 FFIOEDD DIWYGIEDIG AR GYFER TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT A THRWYDDEDAU GWEITHREDWYR 2013/14

Hysbysir drwy hyn, yn unol ag adran 70(2), Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu bod y ffioedd i ganiatáu ac adnewyddu trwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

- (a) **Trwydded Gyrrwr (Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat) £102.50 y flwyddyn**
- (b) **Trwydded Cerbyd (Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat) £115 y flwyddyn**
- (c) **Trosglwyddo trwydded (i gerbyd arall neu i berchennog arall) £56.25**
- (d) **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat £136.25**

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi penderfynu amrywio ffioedd a threfniadau gweinyddu eraill yn ymwneud â thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat nad yw'n ofynnol iddynt fod yn destun hysbysiad cyhoeddus.

Yn unol â gofynion adran 70(3) (b) y Ddeddf a enwir uchod, gellir archwilio copïau o'r hysbysiad am ddim am gyfnod o 28 niwrnod wedi cyhoeddi'r hysbysiad hwn yn -

Siop Gwynedd**,** Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH
Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA
Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB

Bydd yr hysbysiad hefyd ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd (tudalen Ymgynghori) am 28 niwrnod wedi cyhoeddi'r hysbysiad hwn. **www.gwynedd.gov.uk**

Gellir cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r amrywiadau a nodir uchod yn ysgrifenedig a'i anfon o fewn y 28 niwrnod a nodwyd at **Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Swyddfa Ardal Arfon, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL53 1BN**.

Daw'r amrywiadau uchod i rym 28 niwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwn. Pe derbynnir gwrthwynebiadau mewn ymateb i'r hysbysiad hwn, yna ar ddyddiad ddim hwyrach na 2 fis wedi i'r cyfnod 28 niwrnod ddiweddu, bydd yr amrywiadau'n dod i rym, gan gynnwys diwygiadau neu hebddynt, ar ôl ystyried y gwrthwynebiad.

Dyddiedig: 17/07/2013
Aled Davies, Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

## GWYNEDD COUNCIL

### LOCAL GOVERNMENT (MISCELLANEOUS PROVISIONS) ACT 1976 REVISED LICENCE FEES FOR PRIVATE HIRE VEHICLES AND HACKNEY CARRIAGE VEHICLES AND OPERATORS 2013/14

Notice is hereby given in accordance with section 70(2) of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 that Gwynedd Council has determined that the fees in respect of the grant and renewal of private hire and hackney carriage licences be varied as follows:

- (a) **Drivers Licence ( Hackney and Private Hire) £102.50 per year**
- (b) **Vehicle Licence ( Hackney and Private Hire) £115 per year**
- (c) **Transfer of licence (to replacement vehicle or proprietor) £56.25**
- (d) **Private Hire Operators Licence £136.25**

The Council has also determined variations in other fees and administration arrangements in connection with taxi and private hire licensing which are not required to be the subject of a public notice.

As required by section 70(3)(b) of the said Act, copies of this notice may be inspected free of charge for a period of 28 days from the publication of this notice at -

Siop Gwynedd, Council Offices, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH
Siop Gwynedd, Council Offices, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA
Siop Gwynedd, Council Offices, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB

A copy of this notice will also be available on the Gwynedd Council website (Consultation page) for 28 days from the publication of this notice. **www.gwynedd.gov.uk.**

Any objections to the variations specified above may be made in writing and sent within the said 28 days to the **Public Protection Service, Arfon Area Office, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN**.

The above variations will come in to effect 28 days from the date of this notice. If any objections are received in response to this notice, then on a date not later than 2 months from the expiration of the 28 days period, the variations shall come in to force with or without modifications after consideration of the objection.

Dated: 17/07/2013
Aled Davies, Head of Regulatory Services
Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

24 Bryn Tyrion,
Bethesda,
Gwynedd,
LL57 3NG

Dear Sir/ Madam,

I wish to discuss my growing concerns relating to the recent rise in the cost of Hackney and Operators licence which I incur as a Taxi company Owner. This in collaboration with the general soaring costs of fuel prices, insurance costs and other day to day bills are serious y compromising the productivity of my company, and as a result threatens the livelihood of several of my employees and their families. I feel that the recent rise is seriously excessive and should be reviewed as a matter of urgency.

As a response to this letter I would appreciate an explanation of the reasons for the rise and f you to consider more reasonable increases which would be more proportionate.

I thank you in advance for your time.

Sincerely

Mr Alan Owen A1 Cars

1 Foel Ogwen,
Bangor,
Gwynedd,
LL57 3LD.

Dear Sir/ Madam,

In relation to a recent letter that my manager wrote (which I enclose for your information) I would also like to express my concerns about the cost of my Hackney licence. I personally feel that this rise is massively excessive and I feel that this makes this particular job an impossible career to pursue and in light of this I also ask that you review this.

Please send any responses to either the address above or my Manager Mr Alan Owen A1 Cars who in turn will feed back any outcomes.

Sincerely

Mr David Owen

To whom it May concern,

I am writing this letter regarding the price Increase of the Hackney badge.

Why has the Increase risen so high as the price is high enough without having to make day to day living.

Having risen by 25 % is an absolute disgrace, especially as it has to be renewed every year at the end of the year, when its Christmas time

I have 2 children to support and this is a very difficult time of year.

Mr Mark Griffiths

DEAR Licensing Committee

I would like to object about the fee increase this year of £20.00, I only drive school children to and from school a matter of two hours a day, i am not the only driver who just take children to school, i pay for my medical and my license out of my own pocket a total of £162.00 and this fee increase is unfair on us, it is time the committee stopped putting an increase of £20.00 a year, if this increase carries on at this rate you will be putting all taxis out of business.

HACKNEY LICENCE HOLD
A.D.0323.
[signature] Godfrey

CYNGOR GWYNEDD
CYFADRAN ADNODDAU
07 AWG 2013
GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD
D rhif tracio...C3522...

Dear Licensing Committee

With ref to this new fee Increase
I only take Children to & from School.
Increase of £20, from £82 to £102 --
I do not drive a Taxi at night or
weekends,
you Should have diffence's licence's
for School taxi Drive's only.

Your truely

C A Godfrey

CYNGOR GWYNEDD
CYFADRAN ADNODDAU
07 AUG 2003
GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD
D | rhif tracio C3521

DWYFOR TAXI ASSOCIATION
C/O 14 PLAS TARALLT
PWLLHELI
GWYNEDD
LL53 5EE

Gwynedd Council,

Regulatory Department,

Public Protection Service,

Embankment Road,

PWLLHELI,

Gwynedd. LL53 5AA

CYNGOR GWYNEDD
CYFADRAN ADNODDAU
14 AWS 2013
GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD
D rhif tracio........................

Dear Sir/Madam,

Re: ***LICENCE FEES FOR DRIVERS, HACKNEY CARRIAGES, PRIVATE HIRE VEHICLES AND OPERATORS 2013/14***

Further to your letter dated the 17th July 2013, we raise the following points:-

We note your comments that taxi licence fees have been maintained relatively low for some years but we also point out that there have been two increases in the last few years.

In relation to your comment regarding the cost of processing licences issued we were led to believe by the Licensing Office that there are at least 500 vehicles and 500+ drivers on your books which once again, we are led to believe, is generating around £100,000 income for the Council; surely the cost of processing such licences does not exceed this amount as we, the taxi owners, pay for everything from the brackets to hold the licences to the actual licence plates themselves. Please clarify when you state that the income generated does not cover the cost of processing the licences. We cannot see that there should be an annual budgetary deficit whether it is in the current economic climate or not.

Some customers are already complaining that taxi fares are very expensive and in order for us to keep up with your proposed raise in percentage, we would of course have to consider our fares

bearing in mind you will always find a few taxis that will undercut and not follow the fare guides issued.

The Licensing Officer is only in Pwllheli for one day a week and this is not really acceptable. If we require a meeting on any of the other days we may have to go as far as Dolgellau to have this meeting. As you appreciate this would in effect cost us half a day to a full day's loss of income. Furthermore, the Officer does not make his presence known and is never out carrying out vehicle checks during the day or night.

We feel as taxi drivers that there is no support from the Council i.e. when an issue is raised it is never seen to be taking notice and it feels as though the issue is completely ignored. There are no follow up to complaints given to the Council. A prime example of this is illegal advertising and operating; it seems that every matter is brushed under the carpet and ignored.

Issues have been raised with the Council regarding the plying for hire of private hire on the streets on a daily basis; PSV minibuses and also out of area taxis i.e Arfon in Dwyfor and vice versa.

All the above have been raised previously in various meetings but no action is ever taken and the problem is increasing and makes it difficult for the legal taxi drivers to earn a proper living and that is without mentioning that the general public are being put in danger without their knowledge in most cases.

The Council issue licences to taxis without meters and therefore these vehicles cannot be legal whereas we follow the correct procedure before obtaining a meter.

We feel that if the Council was seen to listen and act upon issues raised in meetings held or otherwise in a private meeting; it may be the case that an objection for taxi licence fee increases would not cause such an issue for us.

We would appreciate your comments regarding the above. It may well be the case that these issues are not directly in connection with the increase of fees but it makes it very difficult to justify these proposed increases when we feel that we are always ignored. It seems that it is quite an easy decision for the Council to just decide to increase our licence fees when they feel they need to without a proper and just explanation.

We look forward to hearing from you.

Yours faithfully,

18 SIGNATURES.

S R Stanway — S. R. STANWAY. STANWAYS TAXIS.
24 WEST END PWLLHELI LL53 5PN.

---

D. G. Williams — B+M TAXI Abersoch
Pwllheli LL53 7LG

---

Davies, WEST END TAXI
Pwllheli.

---

E S Jones EVAN'S TAXIS

A Williams RHYD TAXIS + ALS TAXIS
LL53 7SB

H Jones Rhyd TAXI

Richard Owen Rhyd Taxis

---

E Williams TAXI SYKES

---

R. I. Jones IAN Taxi.

---

J L Parry JOHN TAXI Efailnewydd LL53 5TJ.

---

A Evans TACSI ANWEN TAXI Pwllheli LL53 5LR

---

E Owen Rhyd taxi LL53 6AP

| | | |
|---|---|---|
| TAXI ADE | LL53 6BJ | |
| WAVE CARS | LL53 7ED | |
| Gwynedd Taxis | LL53 8SR | G Evans |
| LLANBEDROG TAXIS | LL53 7NR | |
| JOHN STRAIN TAXIS. | LL53 5EG | |
| Tristan Phillips | LL53 7RS | |